



Cynhaliwyd Gŵyl Flodau hynod lwyddiannus eto eleni yn nhref Caerffili. Dan nawdd Cyngor y Dref, a dalodd am y blodau, cafwyd arddangosfeydd mewn 11 lleoliad. Daw'r llun uchod o un o'r cyflwyniadau a gafwyd yng nghapel Bethel, Heol Nantgarw, lle bu aelodau o Glwb Dydd Gwener, artistiaid Bedwas yn arddangos eu lluniau ymhlith y blodau. Thema eleni oedd "Eisteddfod".

Y PWYLLGOR A'R SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd: Marian Fairclough
faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyrion Thomas
e.thomas119@btinternet.com

Ymgynghorydd: Ann Lewis

Golygydd: Ben Jones
benamary2000@yahoo.co.uk
02920 862428/ 07891916046

Digwyddiadur: Lowri Jones
Lowri@mentercaerffili.org

Ieuenctid: Bethan Mair Jones a Morgan Roberts

Dyluniwr: Gareth Williams
bocspostgap@btinternet.com

Tanysgrifio: Marian Fairclough a Jan Penney

Pwyllgor: Eleri Betts, Eirlys Thomas, Tamsen Graves



Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru

Genedigaeth

Bu genedigaeth merch i Eurgain Haf ac Ioan Thomas, Heol Tŷ Gwyn, Pontypridd ar ddiwedd Mai yn achlysur o lawenydd mawr. Chwaer fach i Cian Harri yw Lois Rhodd. Mae Eurgain yn enedigol o Benisa'r-waun yng Ngwynedd; cafodd ei haddysg yn Ysgol Brynrefail ac mae'n cymryd seibiant mamolaeth o'i swydd fel Swyddog Cyfryngau, Achub y Plant Cymru.

Yn enedigol o Benpedairheol, cafodd Ioan ei addysg yn Ysgolion Gilfach a Chwm Rhymni, ac mae yn awr yn Ddirprwy Brifathro yn ysgol Gymraeg Abercynon. A'r rhieni-cu balch iawn, wrth gwrw, yw Eyrion a Denise Thomas.

Croesewir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn y cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau yn unol â gofynion golygyddol.



Daeth y llun hwn o Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerffili yn y 1930au drwy law Mrs Sian John. Tybed a oes gan unrhyw un arall o'n darllenwyr lun i'w rannu â ni?

Llywyddion Anrhydeddus yr Ŵyl



Llun Irfon Bennett

Yn ystod yr Eisteddfod yn Llancaiach Fawr anrhydeddwyd pedwar o garedigion yr iaith yn Sir Caerffili am flynyddoedd o ymdrech diflino i'r Urdd ac i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, drwy eu hurddo yn Lywyddion Anrhydeddus.

Ymhlith gweithgareddau eraill bu Gwilym ac Eirlys Thomas yn stiwardio'n ddiflino mewn eisteddfodau lleol ers blynyddoedd.

Cerdd Dant a chanu corawl yw arbenigedd Mrs Sian Griffiths ac mae Mrs Anne Hughes yn flaengar ym myd Dawnsio Gwerin

Cyfarchwyd y pedwar gan Aneirin Karadog

Yr englyn i Sian Griffiths,

Daw alawon dy lywio drwy ein cwm,
Dyros'n can i seinio
Gosod cainc a gosod co'
Yn delyn rhwng ein dwylo.

Yr englyn i Gwilym ac Eirlys Thomas,

I gyfeilant dwy gyfalaw 'hed iaith
O gydweithio distaw,
Ym mri'r dôn dros Gymru daw
Rhu awelon o'r alaw.

Englyn Anne Hughes,

Daw i fy rhiniog dwf yr heniaith, daw'n
Ddeildy hardd llawn gobaith
A daw rhin iau dderwen iaith
I ddeilio heddiw, eilwaith.

..... ond nid yr Ysgolion Cymraeg oedd yr unig rhai a fu'n fuddugol.....

Dyma barti llefaru Ysgol Coedybrain, Llanbradach a ddaeth yn drydydd mewn cystadleuaeth gref iawn. Dywedodd y beirniad, Lynwen ap Gwynedd, fod y gystadleuaeth yn mynd o nerth i nerth a gallai fod wedi rhoi llwyfan i 5 parti! Noddwyd y gystadleuaeth gan y grŵp sy'n datblygu hen safle Ysbyty'r Glowyr, Caerffili, ac fe'u plesiyd hwy yn fawr o weld gwobr yn mynd i ysgol leol.



Robert Dutt

Yn ystod mis Mai eleni bu Robert ac Annette Dutt, Prince's Avenue, Caerffili yn ymweld â Phalas Buckingham. Yno roedden nhw'n westai'r Frenhines mewn Garddwest.



Gallai Robert fod wedi derbyn gwahoddiad am nifer o resymau digonol, ac yntau wedi bod yn gadeirydd gweithgar Cyngor Iechyd Cymunedol Aneurin Bevan. Hefyd mae'n un sydd wedi gwneud cymaint dros deuluoedd â phlant sydd ag anghenion addysgol ychwanegol. Ar ben hynny, wrth gwrs, mae wedi gwasanaethu fel Llywodraethwr yn ein hysgolion gan gynnwys blynyddoedd fel Cadeirydd Bwrdd Llywodraethol Ysgol Gymraeg Caerffili. Hefyd mae'n Gadeirydd Rhwydwaith Rhieni Caerffili. Bydd aelodau Bethel, capel yr Annibynwyr ar Heol Nantgarw, yn

gwybod am ei waith fel Trysorydd yr achos yno. Ac ni ddylid anghofio chwaith mai ef yw cadeirydd bwrdd golygyddol y papur hwn.

Ond sail y gwahoddiad arbennig hwn oedd cydnabyddiaeth gan Swyddfa'r Arglwydd Ganghellor o waith ac o statws Robert fel Ustus Heddwch. Oherwydd mae e'n Is Gadeirydd ar y Fainc. Na, nid y fainc fel y mae hi yn y llys ond, yn hytrach, mae e'n Is Gadeirydd ar holl Ustusiaid Gwent. Ac mae Gwent, wrth gwrs yn cynnwys Sir Caerffili. Mae e, felly, yn cadeirio mintai o ryw 285 o Ynadon.

Un o Gaerdydd yw Rob yn enedigol lle mynychodd Ysgol Uwchradd Cathays cyn mynd i weithio gyda'r Gwasanaeth Sifil. Yno bu ar flaen y gad yn y gwaith o lywio deddfau drwy senedd San Steffan pan oedd yn gweithio yn y Swyddfa Gymreig yn Llundain. Bu'n aml wrthi tan oriau mân y bore, pan fyddai'r Tŷ yn eistedd yn hwyr, yn bwydo gwybodaeth allweddol i'w feistri gwlidyddol.

Wedi dychwelyd i Gaerdydd ymgwymerodd â dyletswyddau yn yr Adran Drafndiaeth. Yn fuan wedyn ymgwymerodd â chysiau academiaidd rhan amser ym Mhrifysgol Morgannwg gan raddio yn BA a MSc gydag anrhydedd. Yn ddiweddarach ymunodd â'r Adran Adnoddau Dynol yn y Swyddfa Gymreig ym Mharc Cathays ac wedi hynny, wrth gwrs, yn y Cynulliad. Ymhlith ei waith arall bu wrthi'n gosod i fyny systemau cyfrifiadurol i hwyluso'r gwaith hwnnw. Dyna lle y bu tan ei ymddeoliad.

Mae Robert, fel y gŵyr llawer o'n darllenwyr, wedi magu teulu cerddorol. Ac yntau'n hoff o chwarae'r gitâr mae Annette hithau, fel aelod o Fand Arian Crwbin yn chwaraewr medrus ar y trombôn. Yna, gyda'u mam a'u tad daw Rhiannon ar y piano a'r delyn a Meredydd ar y drymiau a'r gitâr. Ac mae galw mawr am wasanaeth Rhiannon i ganu'r delyn mewn priodasau a digwyddiadau cyffelyb. Annette yw pennaeth adran y Gymraeg yn ysgol Gyfun Pontllanfraith tra bo Rhiannon, a raddiodd o brifysgol Caerwysg, yn gyfreithwraig dan hyfforddiant yng Nghaerdydd. Ers gadael Coleg yr Iwerydd yn Sain Dunwyd mae Meredydd wedi mynd i mewn i'r diwydiant manwerthu dillad. Bu'r ddau, yn eu tro, yn ddisgyblion yn Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Pan nad yw Robert yn llanw ei fywyd â diddordebau eraill mae ers blynyddoedd wedi bod yn canlyn rygbi yn enwedig timau Caerdydd, y Gleision erbyn hyn, a Chymru. Mae Robert ac Annette hefyd yn hoff iawn o deithio ac o fynd ar wyliau. Gweler ar y clawr dystiolaeth o'i allu i drefnu blodau.

Y Cwnstabl Hywel Griffiths, QPM, BSc, DipSocPol&Crim

Bydd ffrindiau niferus Hywel Griffiths, Machen, wedi'u plesio'n fawr gan y penderfyniad i ddyfarnu Medal Heddlu'r Frenhines iddo yn Rhestr yr Anrhydeddau Pen-blwydd eleni.

Bu Jeff Farrar, Prif Gwnstabl, ac Ian Johnston, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent yn frwdfrydig eu canmoliaeth bod Hywel wedi derbyn anrhydedd mor uchel. Dywedodd Ian Johnston, "Mae cyflawniad Hywel a'i yrfa arbennig yn y Ffors yn adlewyrchiad cywir o'r dyn yw e. Derbyniodd sawl cymeradwyaeth yn ystod ei yrfa glodwiw fel Cwnstabl a nawr fel Swyddog Gwybodaeth (*Intelligence Officer*) - gan gynnwys dwy ganmoliaeth am ddewrder.



Rydw i wedi cael y pleser o'i adnabod ers iddo ddechrau fel Swyddog Gwybodaeth gyda Heddlu Gwent."

Mae Hywel yn fab i Haydn a Margaret Griffiths, Bryn Siriol, Caerffili ac yn frawd i Huw ac Alun. Mae'n briod, wrth gwrs, â Karen sy'n athrawes yn Ysgol Gymraeg Caerffili. Ac mae'r ddau yn ymhyfrydu yn llwyddiant eu plant: Catrin sydd erbyn hyn yn astudio ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd ac Aled sydd yn Chweched Dosbarth Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Bu Hywel wrthi'n dysgu'r Gymraeg ers cyfarfod â Karen yng Ngwersyll yr Urdd. Fel heddegidwad ifanc cyflawnodd ei uchelgais o sicrhau swydd yn trafod cwn yn yr heddlu. Ond, yn anffodus, bu'n rhaid iddo roi'r gorau i'r gwaith hwn pan drawyd ef, yn 1998, ag ergyd greulon o ddarganfod ei fod yn dioddef o glefyd Parkinson.

Ond ni fu'r anawsterau cyfathrebu, sydd gymaint yn rhan o'r salwch hwn, yn rhwystr iddo fwrw ymlaen â'i yrfa broffesiynol. Gyda chefnogaeth ei deulu agos bwrodd ati i geisio cymwysterau a'i galluogai i weithio'n effeithiol er gwaethaf y salwch.

Drwy'r Brifysgol Agored llwyddodd ennill gradd BSc mewn Cyfrifiaduraeth a Mathemateg yn ogystal â diploma mewn Polisi Cymdeithasol a Throseddeg Dywedodd ei Brif Gwnstabl iddo ddangos arbenigedd mewn ymchwiliadau pwysig, gan arwain at sawl canmoliaeth mewn achosion yn ymwneud â llofruddiaethau, trais, lladradau arfog, trais rhywiol ar blant, cyffuriau a throseddau yn erbyn yr oedrannus.

Dywed Hywel am y dyrchafiad, "Teimlaf yn wylaidd ac yn freintiedig o gael fy enwebu ar gyfer y anrhydedd hwn, ond ar yr un pryd teimlaf wrth fy modd ac yn falch o'r hyn rydw i wedi'i gyflawni. Llwyddais fyw bywyd normal er gwaethaf amgylchiadau hynod. Fel yr wyf yn ei ddweud bob amser - dydw i'n neb arbennig, jest yn fachan cyffredin. Rydw i wedi delio â phethau yn yr unig ffordd a wn i, gydag agwedd gadarnhaol a chyda gwên ar fy wyneb. Allen ni byth fod wedi cyflawni'r hyn a wnes i heb y gefnogaeth aruthrol a ges i gyda fy nheulu, ffrindiau, cyd-weithwyr, gweithwyr ieuchyd a Heddlu Gwent.

Mae Hywel yn ymgychu a chodi arian dros Parkinson UK ac wedi ysgrifennu blodeugerdd, "*Poems, Parkinson's, the Police and Me*". Dyma'r pennill cyntaf o gerdd y mae wedi ei hysgrifennu wrth iddo edrych ymlaen at ei ymweliad a Phalas Buckingham:

A TRIP TO LONDON

I'm going to London to visit the queen
A man so full of pride - you will rarely have seen;
Proud to be recognised for what I have achieved,
Humbled by all of the support I have received!

“Cofio Ray”: Y Cynghorydd Ray Davies 1930-2015

Collodd Cymru a'r gymuned sosialaidd ehangach gymeriad lliwgar ac ymroddgar pan fu farw'r cyfaill Ray Davies, Bedwas yn 85 mlwydd oed. Gwynebodd gancr â'i ddewrder nodweddiadol

Roedd Ray, yn ei gap coch, yn ffigwr adnabyddus. Yn aelod brwdfrydig o Gôr y Cochion a Chôr Meibion Caerffili, fe'i gwelwyd ef a'i wraig Wendy wrthi'n aml yn eiriol dros y difreintiedig a'r llai ffodus.



Llun o Ray gan Tad ei fab

Yn enedigol o Lanbradach, aeth Ray yn syth o'r ysgol yn 13 i weithio

yng nglofa'r pentref.

Magwyd ef mewn tlodi gan ddioddef diptheria a'r diciâu. Ceir disgrifiadau byw o'r cyfnod hwnnw yn ei hunangofiant, *A Miner's Life*. Arweiniodd ei weithgareddau undeb e'n anochel i wleidyddiaeth a'r Blaid Lafur, a chafodd ei ethol yn aelod o hen gyngor Bedwas a Machen yn 1964. Aeth ymlaen wedyn i fod yn aelod o Gyngor Sir Mynwy ac wedi ad-drefnu llywodraeth leol yn 1973 etholwyd ef i Gyngor Sir Morgannwg Ganol. Ail-drefnwyd llywodraeth leol drachefn ganol y 90au a chymerodd Ray ei sedd, yn anorfod bron, ar gyngor Unedol Caerffili.

Daliai safbwynt cryf ar lawer o faterion ond doedd teimlo am bethau ddim yn ddigon i Ray. Na, roedd yn rhaid gweithredu - a hynny yn aml yn dod ag e i wrthdaro â'r awdurdodau gan ei gymryd i'r ddalfa fwy nag unwaith. Cafodd gryn sylw am ei safiad dros y Palestinaid, yn enwedig pan saethwyd ef yn ei ben! Bu'n wrthwynebydd ffyrnig i bolisiau adweithiol Margaret Thatcher, yn enwedig yn ystod streic y glowyr yn 1984. Teimlai i'r byw yn erbyn arfau niwclear a bu hefyd yn ymgyrchu dros y Gymraeg. Safodd dros hawliau pobol hoyw ac, wrth gwrs,

gyda'r mudiadau gwrth-apartheid.

Yn eironig bu'r democrat blaengar hwn farw ddiwrnod yr Etholiad Cyffredinol. Ond diolch i'r drefn ni fuodd fyw i glywed y canlyniadau. Roedd wedi cyflwyno'i gorff i ymchwil feddygol a chaniatawyd felly iddo fodloni ei uchelgais - sef mynd i Brifysgol! Ond felly, Seremoni o Gofio a gynhaliwyd yn lle angladd am nad oedd corff i'w gladdu.

Cafwyd sawl teyrnged yn felys, cofiadwy a doniol gan ei blant a'i wraig. Cafodd Ray bedwar mab ac un ferch er iddo gladdu Mark yn gynharach eleni. Difyr oedd clywed Rachael, ei ferch, yn adrodd fel y bydden nhw, fel plant, yn derbyn anrhegion braidd yn wahanol i blant eraill, megis mygiau gwrth-apartheid neu grys T yn galw am ryddhau Nelson Mandela. Cafwyd addewid o wibdaith un Nadolig. I ble? I Gomin Greenham, wrth gwrs! Cafodd Ray ei ddal yn mynd â Rachael allan o'r ysgol i wrthdystio un tro. A sut gawson nhw eu dal? Am i'r prifathro weld Ray a Rachael yn llosgi llun o Margaret Thatcher ar y cyfryngau. Yn ystod y Seremoni yn Neuadd Bedwas cafwyd bonllfau o gymeradwyaeth pan adroddwyd y stori hon!



Estynnwn ein cydymdeimlad cynhesaf i Wendy ei wraig, Carwyn, Tad, David, Steven a Rachael.

Rhoddion Er Cof

Rhoddwyd Tlws y Cerddor yn Eisteddfod Geneldaethol yr Urdd eleni er cof am Bill a Sylvia Harries a David a Mary Harries, pedwar a wnaeth gymaint i hyrwyddo addysg Gymraeg yn yr hen Sir Fynwy.

Roedd y pedwar yn rhan o griw a adeiladodd ar y syniad a gafwyd o ddarparu addysg Gymraeg i blant gweithwyr o ardal Pontardawe a Llanelli a ddaeth i dde-ddwyrain Cymru pan agorwyd gwaith dur Llanwern. Teuluoedd Cymraeg oedd y rhain a gwnaed darpariaeth ar eu cyfer, i'w galluogi i gadw eu mamiaith, a hynny yn Ysgol Gynradd Rhisga.

Bu'r rhieni hyn yn arloeswyr gyda'u gweledigaeth i ddatblygu'r uned honno yn fan lle y gellid cyflwyno'r iaith i blant di-gymraeg y sir. Yr unig Ysgol Gymraeg yn Sir Fynwy cyn hynny, wrth gwrs, oedd yr un yn nhref Rhymni, pen arall y sir o Risga.

Talodd gweledigaeth y rhain ar ei ganfed oherwydd rhieni Rhys Harries, Pennaeth Ysgol Treganna, Caerdydd oedd Bill a Sylvia Harries; a thad a mam Rhodri, Pennaeth Ysgol Panteg, Pont-y-pŵl, oedd David a Mary Harries. Nhw ynghyd a Jeff a Lillian Jones (Pennaeth cyntaf Ysgol Gwynllyw), Vaughan a Jane Williams (rhieni Rhian Dafydd, dirprwy yn Ysgol Gwynllyw) a Bronwen James (awdur "Tŷ â Dwy Ffenestr") oedd ymhlith eraill â'r weledigaeth i blannu gwinllan ffrwythlon yn y parthau hyn.



Daeth criw o gyfeillion a pherthnasau y diweddar Rhian Criddle at ei gilydd i lansio cronfa i gofio am Rhian a fu farw dros ugain mlynedd yn ôl tra'n athrawes yn Uned Gymraeg Coedybrain, Llanbradach. Codi £600 i dalu am y Fedal Ddrama oedd y nod ond llwyddwyd bron i ddyblu'r targed wrth iddynt godi £1,132.

Hynt a Helynt y Cwtsh Dysgwyr yn yr Eisteddfod

Symudodd Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent i gartref newydd am wythnos – Y Cwtsh ar Faes yr Eisteddfod. Ac roedd yn le llawer mwy na chwtsh a dweud y lleiaf!

Cawsom wythnos wych yn sgwrsio'n Gymraeg gyda nifer o ddysgwyr a darpar ddysgwyr. Cafodd pobl y cyfle i nodi'r #PethauBychain maen nhw'n gwneud yn ddyddiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Daeth Bendant a Carwyn Jones i ddarllen stori, ychydig o fandiau ifanc i'n diddanu, chwaraewyd gemau a mwynhaodd y plant liwio lluniau o bob math.

Coron ar yr wythnos oedd y Gystadleuaeth i'r Teulu ar y dydd Mercher. Daeth saith teulu o ddysgwyr ynghyd i gymryd rhan mewn pob math o weithgareddau – saethyddiaeth ym Mhentref Mr Urdd, coginio yng nghegin CogUrdd gyda neb llai na Beca Lyne-Pirkis, cwis a thynnu hunluniau gyda selebs ar hyd a lled y Maes.

Braf oedd gweld y teuluoedd yn sgwrsio gyda'i gilydd yn Gymraeg ac yn cael llawer o hwyl wrth fynd ati i wneud y gweithgareddau. Enillwyr y gystadleuaeth oedd y teulu Rees o Fargoed. Bydd y teulu'n cael mynd am benwythnos i Langrannog. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw!

Mair Turner



Y Digwyddiadur

Noson Gomedï
 Nos Fawrth Gorffennaf 7 am 7:30yh
 Clwb Y Bont, Pontypridd
16+
£8 archebu gan Clwb Y Bont neu Bethan Menter Caerffili **£10** ar y drws
Daniel Glyn
Steffan Alun
Ignacio Lopez
Beth Jones
Chris Chopping
 i godi arian at daith Prosiect Mimosa - Patagonia 150
 Urdd Gobaith Cymru a Theatr Clwyd Awst 2015
01443820913 bethanjones@mentercaerffili.org

mentercaerffili.org
Taith Sioe Frenhinol Cymru
£15 Dydd Iau / Thursday Gorffennaf 23 July 2015
 £15 am cgidiant bws. Bydd rhaid talu am docyn mynediad ar wahân.
 £15 for the bus. You will need to buy an entry ticket separately.

Pick ups:
 Gorsaf Bws Caerffili Bus Station 8:00am
 Gorsaf Bws Ystrad Mynach Bus Station 8:30am
 Gadael y maes y sioe erbyn / Leaving the show 18:00pm

I archebu lle cysylltwch â / To book a place contact:
01443820913 morganroberts@mentercaerffili.cymru

mentercaerffili.org
Picnic yn y Parc

Gweithgaredd i'r teulu cyfan. Dewch a phicnic a blanced a churdd â ni yn y parc. Gweithgareddau, gemau ac amser stori /
 An activity for the whole family. Bring a picnic and a blanket and join us in the park. Activities, games and story time.

Dydd Gwener / Friday Gorffennaf 24 July 2015
11:00-13:00
Parc Morgan Jones Caerffili Park

01443820913 bethanjones@mentercaerffili.cymru

mentercaerffili.org
Taith Eisteddfod Meifod
£20 Dydd Iau / Thursday Awst 6 August 2015
 £20 am gludiant bws. Bydd rhaid talu am docyn ar wahân ar gyfer yr Eisteddfod ar y diwrnod neu o flaen llaw ar wefan yr Eisteddfod.
 £20 for the bus. You will need to buy a ticket to enter the Eisteddfod on the day or beforehand online on the Eisteddfod website.

Pick ups:
 Gorsaf Bws Caerffili Bus Station 7:30yb
 Gorsaf Bws Ystrad Mynach Bus Station 8:00yb
 Gadael y maes erbyn / Leaving the eisteddfod field 18:00yh

I archebu lle cysylltwch â / To book a place contact:
01443820913 morganroberts@mentercaerffili.cymru

Llyfr newydd

“CAERPHILLY CASTLE”
Derek F. Renn

£3.95



Taith Gerdded i'r Teulu

Dydd Sul, Gorffennaf 12fed
Parc Penallta 1 – 3

AM DDIM

bethanjones@mentercaerffili.org

01443 820913

Cylch Meithrin Rhisga

Angen

CYNORTHWY-YDD

(CCLD Lefel 3)

sy'n siarad Cymraeg i weithio 3
awr bob bore
8.50 – 11.50

Manylion pellach

sarah_townsend@sky.com

!!!!Gwasanaeth yn y Gymraeg!!!!

TACSI GORSAF CAERFFILI



Cysylltwch a KEITH ar
02922 362364 neu 07914 355195

facebook.com/tacsigorsafcaerffili

Defnyddiwch eich Cardiau Debyd/Credyd



Ymwelodd 88,607 o bobol ag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llancaiach Fawr rhwng y Dydd Llun a'r Dydd Sadwrn olaf. Y nifer dalodd i ddod i mewn oedd y rhain. Rhwng popeth, gweithwyr, gwirfoddolwyr, a phobl oedd yno cyn y dydd Llun, amcangyfrifir bod y rhif yn agosach i 105,000.

Bu 15,000 yn cystadlu tra bu bron i 300 wrthi'n stiwardio'r amryw weithgareddau. Bu mwy na 3,800 o blant yn cymryd rhan yn y sesiynau chwaraeon; aeth 1,012 ar gefn yr asynnod tra bu 1,940 yn neidio ar y trampolin!



Un mesur o lwyddiant yr eisteddfod oedd i Goleg Gwent, wrth gynnig cyrsiau blasu dysgu Cymraeg i oedolion, weld y cyrsiau'n orlawn ac maent yn chwilio am fwy o diwtoriaid!!



Yng Nghaffi Mr Urdd coginiwyd dros 200cg o gig moch; cafodd 1,100 o wyau eu ffrio, gwerthwyd dros 1,500 o deisennod a 2,000 o frechdanau.



Cymerodd 150 o weithwyr 5 wythnos i adeiladu'r safle gan osod 4 milltir o wi-frau trydan a dwy filltir o bibau dŵr dan y maes. Ac fe dynnwyd y cyfan i lawr mewn dim ond 10 diwrnod! Gwnaeth y bysiau gwennol dros 2,700 o deithiau yn ystod yr wythnos.

Prynwch rifyn mis Medi am fwy eto o luniau'r Eisteddfod!



Pyped Bl. 2 ac iau 3ydd Agnes
Rees-Lever Ysgol y Castell,




Creu Artefact Bl. 10 ac 11
3ydd Jack Harvey Ysgol Lewis Pengam

Pabell Ce




Argraffu Bl. 2 ac iau 1af
Gilfach Fargoed



Cyfres o Brintiau Lliw Bl. 7, 8, a 9



Gwehyddu Bl. 2 ac iau 1af
Megan Simpson Ysgol Penalltau,



Gwaith lluniadu 2D Zail Brooke
Cavan o Risga.



Print Monocrom
Jasmine Cox , Ys

elf a Chreffft



Meghan Johnson Ysgol Gymraeg



**Creu Artefact BI 2 ac iau
Gwaith Grŵp 3ydd Grŵp
Evelyn Ysgol Gynradd Cwm Glas**



**Dylunio a Thechnoleg BI. 7, 8 a 9
2il Megan Vest Ysgol Gyfun Cwm
Rhymni,**



1af Eleanor Hamer Ysgol Gyfun Y Coed Duon



**Gemwaith BI. 5 a 6 3ydd Brady
McCann, Ysgol Pengam**



**m Blwyddyn 3 /4
gol Trelyn.**



**Serameg / Crochenwaith BI.7,8 a 9 (Gwaith Grŵp)
2il Grwp Thomas, Ysgol Lewis Pengam,**

Enillwyr Rhanbarth Gwent yn Llancaiach Fawr 2015

Canlyniadau Llwyfan

Unawd Telyn Bl 7- 9 2il Aisha Palmer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Unawd Chwythbrennau Bl 10 a dan 19 oed 3ydd Aled Diplock Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Unawd Telyn Bl 10 a dan 19 oed 3ydd Eluned Hollyman Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Ensemble 15 - 25 oed 3ydd Ysgol Gyfun Y Coed Duon

Coginio Bl 7-9 3ydd Aaron Scrimgeor Ysgol Gyfun Gwynllyw

Dawns Greadigol Bl 7, 8 a 9 3ydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl 10 a dan 19 oed 3ydd Bethan Thomas Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Grwp Llefaru Bl 6 ac iau (D) 3ydd Ysgol Gynradd Coed-y-Brain, Llanbradach.

Cystadleuaeth Medal y Dysgwyr Bl.10 a dan 19 oed 2il Hollie Kalter Ysgol Gyfun Caerllion

Cyflwyniad Dramatig Bl 10 a dan 19 oed 2il Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Trin Gwallt a Harddwch Lefel 3 Bl.10 a dan 19 oed 1af Ashleigh Simmons Coleg y Cymoedd, Gwent

Trin Gwallt a Harddwch (Lefel 3) 19-25 oed 1af Jessica Bradford Coleg y Cymoedd, Gwent 3ydd Rosie Alford Coleg y Cymoedd Gwent

Canlyniadau Gwaith Cartref

Rhyddiaith Bl. 3 a 4 3ydd Olwen Goss Ysgol Gymraeg Y Fenni

Cywaith neu gyflwyniad cyfrifiadurol Bl. 6 ac iau 3ydd Ysgol Panteg, Gwent

Prosiect Gwyddonol Bl 7-9 (Unigol) 1af Alexandra Deacon Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Gofal Plant - dan 19 oed 1af Grwp Rhiannon Coleg Gwent Gwent 3ydd Grwp Annemarie Coleg Gwent

Gofal Plant - 19-25 oed 3ydd Grwp Courtney Coleg Gwent

Tybed a allen ni gael erthyglau a hysbysebion ar gyfer rhifyn mis Medi i mewn erbyn diwedd tymor yr ysgol—cyn i bawb fynd i ffwrdd i bedwar ban i byd i dorheuio!? *Golygydd*

Colofn Dafydd Islwyn

Mae'n anodd credu ei bod hi'n flwyddyn gron ers pan ddewiswyd Hoff Fardd Cymru. Dr Gwyn Thomas, Bangor a ddewiswyd gan wrandawyr Radio Cymru. Fy newis i oedd y Prifardd Gerallt Lloyd Owen (1944-2014). Bardd a oedd yn fiaren i'n cydwybod; bardd Cerddi'r Cywilydd a Chilmeri. Mae disgwyl nawr am ei gyfrol olaf, 'Y Gân Olaf'. Ynddi y cyhoeddir y cerddi a weithiodd yn ystod dwy flynedd ar hugain olaf ei oes. Yn ystod y cyfnod hwnnw, gweithiodd gywydd coffa i'r Athro Bedwyr Lewis Jones, Bangor a'r Prifardd Dic Jones.

Un o'r digwyddiadau gorau yn hen lyfrgell Bargod oedd y Ddarlith Lenyddol Flynyddol pan y bu Branwen Jarvis, Bangor, yn traddodi darlith i'r Cylch Llên ar farddoniaeth Gerallt. Yn y cylchgrawn Taliesin, Gwanwyn 2010, cyhoeddwyd cywydd coffa Gerallt i Dic Jones. Rwy'n cofio codi copi yn Awen Teifi, Aberteifi, a darllen y cywydd. Gyrrodd y cwpled agoriadol ias i lawr fy asgwrn cefn, yr ias y soniodd Gerallt gymaint amdano. Dyma'r cwpled:

Y mae Duw yn siomi dyn,
Duw diwrando er undyn;

a'r cwpled clo,


a'i dwed, ac onid ydyw
y mae dyn yn siomi Duw.

Mae'r cywydd yn un gafaelgar ar ei hyd, dau ddeg un pennill, chwe llinell yr un. Un o'r cywyddau coffa gorau erioed. Cyn eistedd yn sedd y Meuryn yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1979, hyd un Tŷddewi 2002, bu Gerallt yn ymrysona yn rheolaidd yn y Babell Lên. Testun yr englyn cywaith yn un o ymrysonau 1976, Aberteifi, oedd 'Y Cilie'. Gerallt weithiodd un Gwynedd - englyn cofiadwy ac un a restrir ymhlith y goreuon yn ystod cyfnod Y Parchedig O. M. Lloyd, Dolgellau a Chaernarfon fel y Meuryn:

Mynnaf nad fferm mohoni; ei hawen
Yw'r cynhaeaf ynddi,
A blaenffrwyth ei thylwyth hi
Yw y grawn geir ohoni.

Mae'r englyn hwn yn dwyn i go' englyn coffa Gerallt i'r Parchedig Gerallt Jones, Caerwedros (1907-1984)

Ganwyd y Parchedig Gerallt Jones yn Rhymni yn 1907 pan oedd ei dad y Parchedig Fred Jones yn dechrau ar ei yrfa fel gweinidog gyda'r Annibynwyr yng nghapel Moreia.



Gerallt oedd y Meuryn pan gynhaliwyd y Genedlaethol yng Nghwm Rhymni yn 1990. Cafodd un englyn ar ddeg, ddeg marc yn yr Ymryson ym Mryn Bach. Cafodd y diwedd ar Iwan Llwyd ddau farc llawn ac roedd yn aelod o dîm Gweddill Cymru a weithiodd englyn sy'n dal ar go' ymrysonwyr. Testun yr englyn cywaith yn un ymryson oedd un coffa i Gari Williams. Dyma'r englyn deg marc:

Â'r sioe ar ben, er cau'r llenni – di-daw
yw y dorf. A glywi
o gwr y llwyfan, Gari
sŵn chwerthin dy werin di?


Englyn deg marc a ysgydodd y Babell Lên a'r Meuryn yn fwy na neb. Hawdd oedd synhwyro bod englyn wedi ei gyffwrdd, oherwydd wedi i'w awdur ei lefaru ni ddywedai Gerallt air am ryw funud a byr iawn fyddai ei sylwadau arno.

Dros y blynyddoedd bu darlithwyr nodedig yn ymweld â Chylch Llên Bro Elyrch. Methais yn lân â chael Gerallt i dderbyn gwahoddiad y Cylch. "Paid â gofyn," fyddai ei gyfarchiad i mi ar ddechrau yr Ymrysona tua diwedd y naw dega'. Does dim angen i neb ofyn i mi pwyl osodaf bob tro ar ben Rhestr Cerddi, pa fardd sy'n gyrru'r ias ddyfnaf i waelod y galon.

Rydym angen eich cymorth i ddeall sut mae pobl yng Nghymru'n gwyllo'r teledu ac yn defnyddio gwasanaethau ar-lein

Byddwn yn gofyn i chi :-

- Lenwi holiadur byr, unwaith yr wythnos, ar-lein, neu drwy'r post (rhadbost)
- Ateb cwestiynau am eich gweithgarwch yn ystod yr wythnos flaenorol e.e Pa raglenni wnaethoch chi wyllo? Wnaethoch chi wyllo rhaglenni ar-lein?



Byddwch yn derbyn credyd am bob holiadur wythnosol a lenwch. Gallwch ddewis derbyn y credydau fel... Talebau Siopa, Cyfraniad Elusennol, neu gallwch ymuno fel grŵp cymunedol (e.e. Aelwyd, Côr, CFFI, MYW) a chodi hyd at £500 y flwyddyn.

Ymunwch ar-lein - www.panelcyfryngau.cymru

Neu cysylltwch â Sian Evans 07494506962 / cymorth@panelcyfryngau.cymru

Os hoffech ymuno fel grŵp cymunedol gallwn drefnu ymweliad cofrestru. Gallwch hefyd gofrestru mewn digwyddiadau ar hyd a lled Cymru dros yr wythnosau nesaf!

www.panelcyfryngau.cymru



Gardd, Pabell a Stafell Weddi - ble a pham?! Tamsin Graves

Pan agorwyd Canolfan Siloh yn Ystrad Mynach fel canolfan Gristnogol gymunedol, roedd yna dair ystafell ar gael i'w llogi – y neuadd, yr oruwch ystafell, a'r Ystafell Dawel – y lleiaf ohonynt. Gan fod yna feddygfa brysur bron drws nesa' i Siloh, teimlwyd bod angen cynnig noddfa dawel a heddychlon cyfagos i bobl, gyda sofffa, Beiblau, a rhywun wrth law petai angen gair o weddi a/neu baned hefyd.

Ddegawd wedi agor y Ganolfan, daeth yn amlwg ar yr un llaw nad oedd fawr o ddefnydd ar yr Ystafell Dawel ar hap gan y cyhoedd. Ar y llaw arall, bod angen ystafell y maint hwnnw ar y llawr gwaelod i fod yn swyddfa i'r Ganolfan. Roedd angen hon gan fod cymaint o waith gweinyddol yn codi yn sgil gofynion iechyd a diogelwch, prosesu rhenti, a threfnu gwaith staff Siloh yn y gymuned leol.

Ystafell Weddi ydy'r enw ar yr ystafell leiaf erbyn hyn, ac y mae staff a gwirfoddolwyr y Ganolfan yn gweddio yno gyda'i gilydd bob diwrnod gwaith dros yr anghenion lleol ac ar gyfer arweiniad i wneud penderfyniadau doeth ar gyfer y dyfodol. Un penderfyniad diweddar oedd bod Canolfan Siloh yn bresennol ar faes Eisteddfod Caerffili trwy redeg Pabell Weddi sy'n addas i bob oedran, i bob iaith, a phobl o bob argyhoeddiad p'un ai 'n Gristnogion neu beidio. Cawsom syniadau ar gyfer gweithgareddau'r babell gan 'Club 707', sy'n rhedeg clybiau gwyliau a sesiynau ysgol i blant cynradd ac uwchradd. Fe fydd Helfa Drysor ar thema 'Cyfoeth o Ffrwythau' o gwmpas y babell, gyda gwobrau iachus, a chopiau dwyieithog cyfoes o Efengyl Luc ar gael am ddim.

Syniad arall sydd ar y gweill ydy ailwampio gerddi blaen a chefn Siloh yn llecynnau hardd a heddychlon, gyda chroeso arbennig i blant yn y tu blaen, a chyda phwyslais ar fod yn noddfa yn y cefn. Hoffem gynnwys ardal ryngweithiol i nodi gweddïau – rhywbeth yn debyg i wal gweddi. Mae Cyngor Cymunedol Ystrad Mynach, ynghyd â swyddogion lleol 'Groundworks' a 'Communities First', yn rhoi cymorth grantiau, syniadau, a deunyddiau i ni, a'r gobaith yw y bydd gweithlu o blith y di-waith a gwirfoddolwyr sy'n gyfeillion i Siloh yn gwneud y cynllun yn realiti yn ystod yr haf.

Pam felly ydyn ni yng Nghanolfan Siloh yn rhoi'r fath bwyslais ar bwysigrwydd gweddi? Mae'r ateb i gael yn slogan Siloh, sy'n ymddangos ar 'hoodies' a chrysau T newydd y staff – sef un o ddywediadau Iesu 'gyda Duw mae pob peth yn bosibl' (Matthew 19:26). Credwn fod popeth da ar gael yn Iesu, am iddo ddod yn arglwydd dros fywyd a marwolaeth trwy ei aberth ar y groes a'i atgyfodiad; dyna hefyd pam rydym wedi dewis croes yn logo newydd ar gyfer Canolfan Siloh. Croeso i ddarlennwyr 'Cwmni' ddod â chais i ni weddi dros unrhyw fater personol, lleol, cenedlaethol, neu ryngwladol – fe fyddwn yn gwneud hynny mewn cyfrinachedd llwyr, yn hyderus nad oes yna ddim byd sy'n rhy fach na'n rhy fawr i ddod ag e i sylw Brenin y Brenhinoedd!



Munud Fythgofiadwy yn Llancaiach Fawr!

Bu plant Ysgol y Castell, Caerffili yn cystadlu ar y Ddawns Werin yn erbyn Ysgol yr Hendre. Credai pawb mai Ysgol Hendre Caerffili oedd yr ysgol yn eu herbyn. Cawsant sypreis fwya'r Eisteddfod o ddeall mai ysgol o Batagonia oedd hon. Ac i ddodi'r hufen ar y deisen aeth ein plant ni at yr ymwelwyr gan estyn "Croeso i Gymru" iddynt—yn Gymraeg, wrth gwrs!!!

Maenordy Llancaiaich Fawr – Wedi'r Wyl

Bu Ann Lewis yn holi Diane Walker, rheolwr Llancaicach Fawr am ymweliad yr Eisteddfod â'r Maenordy:

Diane, diolch am gytuno i roi cyfweiliad ar gyfer Cwmni. Sut eisteddfod gawsoch chi?

Wel, roedd rhaid i ni baratoi yn drwyadl ar gyfer dyfodiad yr Eisteddfod. Yn fwy na dim, roedd rhaid sicrhau bod digon o'r staff sy'n tywys ymwelwyr o gwmpas y tŷ yn siarad Cymraeg. Fe hoffon ni gael mwy o Gymry Cymraeg ar ein staff parhaol ond dydy hi ddim yn rhwydd dod o hyd iddyn nhw. Felly fe fynnaid bod pob aelod o'r staff di-gymraeg yn gwneud cwrs 12 wythnos i ddysgu rhywfaint o'r iaith. Erbyn wythnos yr Eisteddfod roedd pawb yn gallu cyfarch ymwelwyr yn Gymraeg, esbonio pwy oedden nhw a beth oedd eu gwaith. Wedyn roedd rhai yn troi i Saesneg wrth roi mwy o fanylion. Wrth gwrs roedd gyda ni Gymry Cymraeg yma – rhai o'r staff a rhai gwirfoddolwyr. Roedd siaradwr Cymraeg ar bob llawr o'r tŷ. Rydw i'n gobeithio y bydd pawb o'r staff sydd wedi dechrau dysgu'r iaith yn parhau, fel rwyf i'n bwriadu gwneud.



Mae eich staff yn siarad Saesneg ychydig yn hynafol, yn cyfleu naws yr ail ganrif ar bymtheg wrth dywys ymwelwyr o amgylch. Sut Gymraeg fyddan nhw'n ei siarad?

Pan fyddwn yn tywys grwpiau Cymraeg o gwmpas y Faenordy, heblaw am wythnos yr Eisteddfod, bydd gweision y plas yn ceisio siarad mewn tafodiaith leol ac yn ceisio cyfleu naws y Wenhwyseg sydd bron â bod ar goll erbyn hyn. Cymry uniaith Gymraeg o'r ardal fyddai mwyafrif y gweision yng nghyfnod y Cynrol Pritchard.

Wnaethoch chi newid trefn arferol yr ymweliadau?
Do, fel arfer bydd ymwelwyr yn y Faenordy am awr neu ddwy ac yn cael eu tywys o amgylch y tŷ i gyd. Doedd gan yr eisteddfodwyr ddim amser i wneud hyn, felly fe osodon ni aelod o staff ym mhob ystafell a gallai pobl weld cymaint ag a fynnent o'r tŷ. Oherwydd nad oedd amser ganddynt i weld y tŷ i gyd, gwahoddwyd pob ymwelydd yn ystod wythnos yr Eisteddfod i ddod yn ôl o fewn blwyddyn am hanner pris. Gyda llaw daeth 4,050 yma yn ystod yr Eisteddfod.

Jonatthan Polson, y crythor sy'n aelod o staff Llancaiaich Fawr

A achosodd presenoldeb yr Eisteddfod unrhyw broblemau i chi?

Dim byd mawr. Pan osodwyd cyfrifiaduron ar y Maes fe beidiodd ein rhai ni â gweithio am gyfnod ac fe achosodd y pibau dŵr broblem arall! Ar y llaw arall fe wnaeth y bwyty yn dda iawn. Erbyn hyn mae'r caeau ble roedd y Maes yn dechrau dychwelyd i'w cyflwr blaenorol.

Roedd cael croesawu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Faenordy Llancaiaich yn ffrainc ac anrhydedd a bu'n wythnos lwyddiannus iawn i bawb.

Diolch o galon Diane.

Os oes gennych ddiddordeb mewn hanes ac yn awyddus i rannu gwybodaeth â chynulleidfa, gan chwarae rhan cymeriad o ganol yr ail ganrif ar bymtheg, mae'r Faenordy yn chwilio am staff a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg. Beth amdani?

Profiadau Cyffrous Plant Bach Ysgol y Castell

Plantasia, Abertawe



Roedd y plant wedi mwynhau pob eiliad!
Cafodd plant Blwyddyn Un y profiad o fod yn dditectifs bach yn ystod eu hymweliad â Plantasia, Abertawe. Roedd y plant wrth eu boddau yn datrys yr helfa drysor am blanhigion oedd wedi eu paratoi ar eu cyfer. Buont yn bwydo'r pysgod ac yn dysgu am fywyd yn y goedwig law. Rhyfeddodd y plant at y coed trofannol a'r blodau lliwgar oedd i'w gweld yno. Yn ystod y sesiwn gweithdy dysgodd y plant wybodaeth wyddonol am nodweddion planhigion a phwysigrwydd y gwahanol rannau. Am ddiwrnod da !

Traeth Southerndown, Pen-y-bont Gwialen a rhwyd yn y pyllau dŵr ! O am hwyll!



Aeth plant y Derbyn ar ymweliad â Thraeth Southerndown. Bu'r plant wrthi yn brysur yn dysgu am fywyd glan y môr ac fe fuont yn chwilio am fywyd yn y pyllau dŵr. Roedd y plant wedi mwynhau pob eiliad yn chwilio a darganfod planhigion a chreaduriaid y traeth. Rhyfeddodd y plant at y creigiau a'r cregyn gwahanol oedd yno. Ac wrth gwrs roedd hi'n angenrheidiol cael hufen iâl! Blasus iawn ! Profiad bythgofiadwy!





Silent World yn dod i'r feithrin

Dyma ni ar lan y môr yn y feithrin !
Daethon nhw a thanciau llawn bywyd / creaduriaid y môr i'r dosbarth- crancod , pysgod, malwod y môr, seren fôr, draenog y môr, pysgod yr anemoni a hyd yn oed siarc! Diolch i Ginny a Russ am y profiad uniongyrchol a gafodd plant y feithrin trwy'r Gymraeg. Ar ddiwedd y sesiwn bu'r plant bach yn creu *collage* allan o nwyddau naturiol glan y môr. Gwych!


Posau'r Plant gan Mary Jones

Allwch chi ddod o hyd i NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



Pa DDAU wyneb sydd yr un peth?


Tynnwch linell rhwng y gair cymysg a'r un cywir.




baern
welt
fonio
the
theatre
scallet
dowty
hula

haul
het
traeth
baner
castell
tywod
twel
nofio

Yr Atebion



haul	=	Hula
tywod	=	dowty
castell	=	scallet
traeth	=	Theatre
het	=	the
nofio	=	Fonio
twel	=	welt
baner	=	baern



Colofn y Dysgwyr gan Ann Lewis



Helo bawb! Aethoch chi i Eisteddfod yr Urdd yn Llancaiach Fawr ddiwedd mis Mai? Roedd Iestyn a Bronwen yno yn cael amser da. Roedd yr Eisteddfod yn *llwyddiannus* iawn a phawb *wrth eu bodd*. Aeth 88,000 o bobl yno *yn ystod* yr wythnos.

Roedd llawer o bethau yn yr Eisteddfod i blant a phobl sy'n dysgu Cymraeg. Roedd *lle arbennig* o'r enw Y Cwtsh Dysgwyr – *cyfle* i gael paned a sgwrs gyda thiworiaid Cymraeg Coleg Gwent. Ydych chi'n gwybod pwy yw Donna Edwards? Mae hi'n actor enwog : hi sy'n *chwarae rhan* Britt ar Pobol y Cwm ac mae hi wedi dysgu Cymraeg. Daeth Donna i agor y Cwtsh a siaradodd hi am *ei phrofiad fel dysgwr*.

Yn yr Eisteddfod mae *cystadleuthau* arbennig i blant sy'n dysgu Cymraeg. *Llongyfarchiadau* i ysgol gynradd o Gwm Rhymni, Ysgol Coed-y-brain, a gafodd *drydedd wobr* am y *grŵp llefaru*. Da iawn!

Y wobr fwyaf pwysig i ddysgwyr yw Medal y Dysgwyr. Mae'r wobr yn mynd i rywun o dan 19 oed sy'n gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn. Yn yr Eisteddfod *eleni*, Alice Howell enillodd y Fedal. Mae Alice yn byw yng Nghaerdydd ac mae hi'n *gerddor* da, yn arbennig ar y fiolin.

Ar ddydd Mercher, roedd *cystadleuaeth* i *deuluoedd sy'n ddysgwyr*. Roedd 7 teulu yno ac roedden nhw'n gwneud cystadleuthau *coginio*, *saethyddiaeth*, cwis a thynnu *hunlun* gyda rhywun enwog yn yr Eisteddfod. Beth yw hunlun? Wel *selfie* wrth gwrs! Roedd y teulu gorau yn cael penwythnos am ddim *yng ngwersyll yr Urdd* yn Llangrannog.

Roedd yr Eisteddfod yn wych, roedd pawb yn cael hwyl ac roedd y tywydd yn braf. Bendigedig!

<i>llwyddiannus</i> : successful	<i>wrth eu bodd</i> : in their element	<i>yn ystod</i> : during
<i>lle arbennig</i> : a special place	<i>cyfle</i> : an opportunity	<i>chwarae rhan</i> : play a part
<i>ei phrofiad fel dysgwr</i> :her experience as a learner		
<i>cystadleuaeth/ cystadleuthau</i> : competition/s		
<i>llongyfarchiadau</i> : congratulations	<i>trydedd wobr</i> : third prize	<i>grŵp lefaru</i> : recitation group
<i>y wobr fwyaf pwysig</i> : the most important prize	<i>eleni</i> : this year	<i>cerddor</i> : a musician
<i>teuluoedd sy'n ddysgwyr</i> : families who are learners	<i>coginio</i> : cookery	
<i>saethyddiaeth</i> : archery	<i>yng ngwersyll yr Urdd</i> : in the Urdd camp	

Tomos Sparnon o Ysgol Gyfun Ystalyfera enillodd y Fedal Celf, Dylunio a Thechnoleg. Fe oedd seren y sioe! 17 oed a chymaint o bobol yn dod nôl a blaen i weld ei waith ac i glywed am beth wnaeth ei ysbrydoli.

*Propiad ardderchog. Diolch yn fawr
i'w llosgddod Yr Urdd Caerffili! Tomos Sparnon*

